# Hanes y Cod Cefn Gwlad

## Beth yw'r Cod Cefn Gwlad?

Mae'r Cod Cefn Gwlad yn cynnig canllawiau i ddefnyddwyr a gwarcheidwaid cefn gwlad ar sut y gellir ei fwynhau a'i warchod trwy ymddwyn yn gyfrifol. Mae wedi bodoli ers dros 70 mlynedd. Mae ei eiriad a'i gyflwyniad wedi newid dros amser, ond mae'n parhau i fod yn arf pwysig i helpu i wneud ardaloedd gwledig yng Nghymru a Lloegr yn ddiogel i ymwelwyr eu mwynhau, gan beidio amharu ar hawliau'r rhai y mae cefn gwlad yn gartref ac yn weithle iddynt.

**1884**

Fe ddechreuodd yr AS James Bryce ymgyrch er mwyn rhoi'r hawl i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad. Yn 1884, cyflwynodd Fil rhyddid i grwydro i Senedd y Deyrnas Unedig. Methodd y Bil, ond dyma oedd dechreuad yr ymgyrch am fwy o fynediad i gefn gwlad. Ailgyflwynwyd y Bil bob blwyddyn hyd at 1914, gan fethu bob tro.

**DECHRAU'R 1900au**

Ar ddechrau'r 20fed Ganrif, roedd mwyfwy o werthfawrogiad o'r awyr agored a dealltwriaeth o'r buddion iechyd o dreulio amser, a gwneud ymarfer corff, yng nghefn gwlad. Wrth i brynhawniau Sadwrn a dyddiau Sul ddod i gael eu hystyried gan drwch y boblogaeth fel 'y penwythnos', ac felly'n amser hamdden, roedd gweithwyr o'r trefi diwydiannol, a oedd yn llygredig yn aml, yn dymuno cael mynediad i gefn gwlad, i fynd am dro ac i anadlu'r aer glân. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o'r tir mewn perchnogaeth breifat. Roedd ciperiaid a thirfeddianwyr yn aml yn gwrthod mynediad i'w tir neu'n ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd gael mynediad i'w tir. Gyda mwyfwy o bobl yn dymuno dianc rhag y trefi a'r dinasoedd, roedd y gwrthdaro rhwng y cyhoedd a'r tirfeddianwyr yn cynyddu.

**1918**

Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, mewn araith yn Wolverhampton ym mis Tachwedd 1918, addawodd David Lloyd George, y prif weinidog ar y pryd, y byddai ei lywodraeth yn gwneud Prydain yn "wlad addas i arwyr fyw ynddi". Ystyriwyd bod mynediad i gefn gwlad yn rhan o'r weledigaeth hon.

**1929**

Sefydlodd y Prif Weinidog Ramsay MacDonald Bwyllgor Parciau Cenedlaethol i ymchwilio i weld a fyddai parciau cenedlaethol yn syniad da.

**1931**

Mae'r pwyllgor yn cyhoeddi Adroddiad Addison, sy'n argymell creu Awdurdod Parc Cenedlaethol i ddynodi ardaloedd penodol yn barciau cenedlaethol. Serch hynny, ni chafodd yr argymhellion eu gweithredu a thyfodd anfodlonrwydd ymhlith y cyhoedd.

Mae'r Aelod Seneddol Charles Trevelyan yn cefnogi'r ymgyrch dros hawl cerddwyr i gael mynediad i lwybrau troed cyhoeddus. Roedd Trevelyan yn gerddwr brwd ac roedd yn cefnogi mwy o fynediad cyhoeddus i gefn gwlad. Mae rîl newyddion Seisnig o 1931 yn adrodd am y diddordeb cynyddol mewn crwydro.

1932

Yn 1932, cerddodd tua 500 o bobl, yn bennaf o ardal Manceinion, i Kinder Scout, sef pwynt uchaf Ardal y Copaon. Roedd y copa, a'r rhostir o'i gwmpas, yn eiddo i Ddug Swydd Dyfnaint ac yn cael eu cadw ar gyfer saethu grugieir. Trefnwyd protest ar ffurf tresmasu torfol, sef gweithred anghyfreithlon ar y pryd, i brotestio am y diffyg mynediad i gefn gwlad. Arweiniwyd y daith gan Benny Rothman, 21 oed, a fu'n aelod o Ffederasiwn Chwaraeon Gweithwyr Prydain, sef sefydliad a drefnodd deithiau cerdded a beicio i weithwyr ifanc o drefi melin gogledd Lloegr. Arferodd y cerddwyr yr hyn yr oeddent yn ei ystyried fel eu hawl i gerdded ar rostir agored. Nod y cerddwyr oedd cyfarfod ar gopa Kinder Scout, ond roedden nhw'n wynebu gwrthwynebiad gan y ciperiaid a gafodd eu cyflogi gan y tirfeddianwyr lleol. Dechreuon nhw ymladd a charcharwyd pump o'r tresmaswyr.

> "Rydyn ni, fel cerddwyr, ar ôl wythnos galed o waith, mewn trefi a dinasoedd myglyd, yn mynd allan i grwydro er mwyn ymlacio ac i gael awyr iach. Ac rydyn ni'n sylwi bod y wlad gerdded orauar gau i ni.... nid yw'n cais, neu'n galw, am fynediad i bob copa a rhostir nad yw wedi'i drin yn afresymol yn y lleiaf."

Benny Rothman, yn siarad yn ei amddiffyniad yn yr achos llys ym Mrawdlys Derby, yn 1932.

Roedd y brotest tresmasu torfol hon wedi codi ymwybyddiaeth o'r mater o fynediad, a sbardunodd yr ymgyrchoedd dros sefydlu parciau cenedlaethol a thros fynediad i gefn gwlad.

Tresmasu Torfol: Parc Cenedlaethol Ardal y Copaon

1934

## DEDDF HAWLIAU TRAMWY

Roedd y Ddeddf hon yn cynnwys pwerau i ddarparu 'Hawliau Tramwy Cyhoeddus' ar lwybrau sefydledig ar draws tir preifat. Cyflwynodd y rheol y gallai aelodau o'r cyhoedd hawlio llwybr fel llwybr cyhoeddus pe gallent brofi bod y llwybr wedi cael ei ddefnyddio am gyfnod parhaus o 20 mlynedd heb wrthwynebiad. Cyn hyn, nid oedd rheol syml yn bodoli a oedd yn pennu faint o amser yr oedd yn rhaid i lwybr gael ei ddefnyddio cyn y bod modd ei ystyried yn llwybr tramwy. Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Ionawr 1934 ac roedd yn gymwys ledled Cymru a Lloegr. Mae'n parhau i fod y safon gyfreithiol hyd heddiw.

Rural England AKA This Blessed Plot - This Other Eden (1940-1949)

1935

Ffurfiwyd Cymdeithas y Cerddwyr yn 1935 a dechreuodd ymgyrchu i ganiatáu 'hawl i grwydro' ar draws cefn gwlad. Roedd hyn yn gydnaws ag addewid Lloyd George o greu "gwlad addas i arwyr fyw ynddi". Ond, er gwaethaf hyn, dechreuodd gwrthdaro rhwng tirfeddianwyr a'r rhai oedd yn dymuno cael mwy o fynediad, felly roedd y cynnydd a wnaed yn araf.

**1936**

Ffurfiwyd pwyllgor sefydlog gwirfoddol i ddadlau'r achos dros sefydlu parciau cenedlaethol ac i lobïo'r llywodraeth. Roedd y pwyllgor yn cynnwys unigolion a oedd yn frwd iawn dros weithgareddau hamdden a chadwraethwyr natur.

Comisiynodd Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig (CPRE) ffilm cyfrwng Saesneg chwe munud i'w dangos mewn sinemâu – 'Rural England: The Case for the Defence' – sy'n dadlau'r achos dros barciau cenedlaethol ac yn annog y llywodraeth Brydeinig i weithredu.

Rural England: The Case for the Defence

## Codau cefn gwlad cynnar

Yn y 1930au a'r 1940au, dechreuodd grwpiau gwirfoddol ddyfeisio codau ymddygiad. Datblygodd Cymdeithas y Cerddwyr god cerddwyr saith pwynt o'r enw 'Y Cod Cefn Gwlad – Cerddwyr', a anfonwyd at ei haelodau. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd Cyngor Diogelu Lloegr Wledig 'God Cwrteisi' ar y cyd â mudiad y Sgowtiaid a'r Geidiaid. Ac, ar ben hynny, cynhyrchodd y Gymdeithas Mannau Agored 'God Gwlad'.

**1939-1945**

Rhoddodd yr Ail Ryfel Byd derfyn ar unrhyw waith pellach i ddatblygu codau.

**1945**

Ysgrifennwyd Papur Gwyn, sef dogfen bolisi sy'n cael ei chynhyrchu gan y llywodraeth yn nodi ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd, ar barciau cenedlaethol fel rhan o'r ymdrech i ailadeiladu ar ôl y rhyfel. Sefydlwyd pwyllgor a gadeiriwyd gan Syr Arthur Hobhouse i baratoi deddfwriaeth i greu parciau cenedlaethol.

Roedd tirfeddianwyr, a'r rhai a oedd yn byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, yn parhau i bryderu am yr effaith y gallai nifer fawr o ymwelwyr ei chael ar gefn gwlad. Cynigiwyd Cod Cefn Gwlad cenedlaethol i helpu i reoli'r problemau posibl drwy gynghori ymwelwyr ar sut i ymddwyn yn gyfrifol.

> "Mae llawer o'r drwgdeimlad sydd wedi bodoli yn y gorffennol wedi deillio o anwybodaeth neu ymddygiad difeddwl ar ran rhai o'r trefwyr. Credwn y gellid lleihau hyn yn sylweddol gan ymdrechion addysgol parhaus. Argymhellwn felly fod Cod Cefn Gwlad syml yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi. Ei nod ddylai fod i ysgogi safon gyffredinol well o ymddygiad cyfrifol yng nghefn gwlad a meithrin mwy o werthfawrogiad o ffyrdd bywyd gwledig a'i anghenion, a'r gyd-ddibyniaeth rhwng cefn gwlad a'r dref."

Detholiad o Adroddiad Hobhouse (Y Weinyddiaeth Cynllunio Gwlad a Thref, 1947, t.44).

**1949**

Pasiwyd Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad ar gyfer Cymru a Lloegr.


Creodd Gomisiwn Parciau Cenedlaethol i oruchwylio sefydlu'r parciau cenedlaethol, i warchod a gwella eu harddwch naturiol, ac i ddarparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Roedd y ddeddfwriaeth hefyd yn caniatáu sefydlu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a gwarchodfeydd natur. Rhoddwyd y dasg o gofnodi a mapio'r hawliau mynediad cyhoeddus i'r cynghorau sir.


Cafodd Parc Cenedlaethol Ardal y Copaon ei greu yn 1951, sef y parc cenedlaethol cyntaf. Yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn, cafodd rhagor o barciau cenedlaethol eu creu, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd, Parc Cenedlaethol Dartmoor a Pharc Cenedlaethol Eryri – sydd erbyn hyn yn dwyn enw uniaith Gymraeg yn unig. Erbyn diwedd y degawd, roedd chwe pharc cenedlaethol arall wedi'u sefydlu: Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Cenedlaethol Rhosydd Gogledd Efrog, Parc Cenedlaethol Exmoor, Parc Cenedlaethol Dolydd Swydd Efrog, Parc Cenedlaethol Northumberland a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sydd erbyn hyn yn dwyn enw uniaith Gymraeg yn unig.


Roedd creu cod cefn gwlad cenedlaethol yn rhan annatod o waith cychwynnol Comisiwn y Parciau Cenedlaethol, gyda'r nod o leihau gwrthdaro posibl rhwng tirfeddianwyr a chymunedau gwledig a 'phobl y dref', yr oeddent yn pryderu eu bod yn heidio i gefn gwlad ac yn ei niweidio.


**1951**

Ar 11 Mai 1951, lansiwyd llyfryn deg pwynt y Cod Cefn Gwlad yn ffurfiol, ac roedd yn costio pedair hen geiniog (llai na dwy geiniog yn arian heddiw). Ei nod oedd helpu i reoli ymddygiad ymwelwyr drwy annog ymddygiad da. I gyd-fynd â hyn, crëwyd cyfres o bosteri a oedd wedi'u darlunio gan Norman Thelwell i hyrwyddo pob neges o'r cod drwy gerddi sy'n odli. Cafodd y cod ei hysbysebu ar drenau British Rail a'i hyrwyddo gan wersylloedd gwyliau Butlin's, a gosododd ffatrïoedd bosteri amdano ar waliau eu ffreuturau. Yn ddiweddarach, cynhyrchwyd hysbysebion teledu a ffilmiau gwybodaeth gyhoeddus.











**1968**

Sefydlwyd Comisiwn Cefn Gwlad Cymru a Lloegr, gan ddisodli Comisiwn y Parciau Cenedlaethol. Roedd ei bwerau'n ymestyn i gefn gwlad yn ei gyfanrwydd, nid yn unig i dirweddau gwarchodedig, megis parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Cymerodd y Comisiwn Cefn Gwlad gyfrifoldeb am y Cod Cefn Gwlad.



**1971**

Ymddangosodd y cymeriadau cartŵn 'Joe a Petunia' mewn nifer o'r ffilmiau gwybodaeth gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r Cod Cefn Gwlad a phwysigrwydd gwarchod harddwch naturiol Prydain. Yn 1971, rhyddhawyd amrywiaeth o ffilmiau Saesneg eu hiaith a gafodd eu cynhyrchu i hyrwyddo'r cod:

Joe and Petunia 1971 Acceptance of The Countryside Code



**1973**


Crëwyd y Cyngor Gwarchod Natur ac fe'i gwnaed yn gyfrifol am ddynodi a rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac ardaloedd cadwraeth natur eraill ym Mhrydain Fawr. Dyma oedd asiantaeth gadwraeth gyntaf Llywodraeth Prydain.

**1981**

Cryfhaodd Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 y ddarpariaeth a wnaed mewn deddfwriaeth gynharach i warchod bywyd gwyllt, gan gyflwyno darpariaeth ychwanegol ar gyfer gwarchod rhywogaethau a chefn gwlad. Mae'n parhau i fod y gyfraith sylfaenol ym Mhrydain Fawr ar gyfer amddiffyn fflora, ffawna a chefn gwlad (mae gan Ogledd Iwerddon ei fersiwn ei hun).

Dyma'r tri phrif faes cyfreithiol sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf:

1. Gwarchod bywyd gwyllt
2. Cadwraeth natur
3. Hawliau tramwy cyhoeddus




**1990**

Ffurfiwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar 5 Tachwedd 1990 i warchod, cadw a gwella amgylchedd naturiol Cymru wrth annog pobl i fwynhau cefn gwlad Cymru. Cymerodd y corff gyfrifoldeb am gynghori'r llywodraeth ar bob mater yn ymwneud â chefn gwlad a materion cadwraeth natur yng Nghymru. Yn yr un modd, ffurfiwyd yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr yn 1999.

## 2000


Pasiwyd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar 30 Tachwedd 2000. Rhoddodd y Ddeddf hon fwy o hawl mynediad cyhoeddus i gefn gwlad yng Nghymru a Lloegr. Darparodd ar gyfer hawl mynediad newydd ar droed i ardaloedd a fapiwyd fel cefn gwlad agored, gan gynnwys mynydd-dir, rhostir, gweundir, twyndir, a thir comin cofrestredig. Roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cynnwys dyletswydd statudol ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr i gyhoeddi cod ymddygiad ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r hawl mynediad newydd.

## 2004

Cyflwynwyd Cod Cefn Gwlad diwygiedig a oedd yn cynnwys hyrwyddo'r hawliau mynediad newydd (o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy). Cynhyrchwyd fersiwn Gymraeg o'r cod am y tro cyntaf, sef 'Y Cod Cefn Gwlad'. Fe'i cynlluniwyd i roi sicrwydd i reolwyr tir ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Hyrwyddwyd y cod diwygiedig gan ymgyrch proffil uchel yn defnyddio darluniau Aardman Animations, gan egluro'r hawliau mynediad agored newydd.

Dechreuodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ddatblygu 'Teulu o Godau' i ategu'r Cod Cefn Gwlad gwreiddiol. Roedd y rhain yn cwmpasu'r canlynol: Y Cod Cerdded Cŵn, Y Cod Defnyddwyr Llwybrau, Cod y Glannau, Y Cod Canŵio, Y Cod Pysgota a'r Cod Nofio yn y Gwyllt.






## 2006

Sefydlwyd Natural England. Disodlodd y corff newydd hwn rannau o gyrff blaenorol, gan gynnwys yr Asiantaeth Cefn Gwlad, English Nature, a rhan o'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig yn Lloegr.

## 2013


Ffurfiwyd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gan ddisodli Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Parhaodd y gwaith o ddatblygu'r ['Teulu o Godau'] o dan CNC.



Y Cod Cefn Gwlad: cyngor i'r rhai sy'n ymweld â chefn gwlad



Y Cod Cefn Gwlad: cyngor i reolwyr tir



Y Cod Cerdded Cŵn


Y Cod Defnyddwyr Llwybrau


Cod y Glannau


Y Cod Canŵio


Y Cod Pysgota


Y Cod Nofio yn y Gwyllt

## 2019

Lansiodd CNC gyfres o animeiddiadau i hyrwyddo teulu'r Cod Cefn Gwlad ar-lein.

Gwyliwch animeiddiadau Teulu'r Cod Cefn Gwlad ar YouTube

## EBRILL 2021

Cafodd y Cod Cefn Gwlad ei ail-lansio i nodi ei ben-blwydd yn 70 oed yn sgil ymgynghoriad eang. Canolbwyntiodd y cod ar dair thema:

- Parchwch bawb
- Diogelwch yr amgylchedd
- Mwynhewch yr awyr agored

Roedd ganddo lais newydd a bywiog, gan greu canllawiau i'r cyhoedd yn hytrach na rhestr o reolau. Ar ben hyn, roedd yn cydnabod y buddion iechyd a llesiant sylweddol a geir o dreulio amser ym myd natur.

Roedd y newidiadau'n cynnwys cyngor newydd ar sut i greu amgylchedd croesawgar, er enghraifft drwy ddweud helô wrth gyd-ymwelwyr, a chanllawiau mwy eglur i danlinellu pwysigrwydd cael gwared ar faw cŵn, cadw at lwybrau troed, a pheidio â bwydo da byw. Roedd hefyd yn rhoi cyngor ar sut i geisio caniatâd ar gyfer gweithgareddau megis nofio gwyllt.

Cynhyrchwyd ffilm fer, 'Dyma ein cod ni', i hyrwyddo'r cod ar ei newydd wedd.

Crëwyd ffilm fer hefyd i nodi 70 mlynedd o hanes y cod ac er mwyn ailddatgan ei bwysigrwydd.

## 2022

Crëwyd cod ar gyfer rheolwyr tir, yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar sut i gefnogi a helpu ymwelwyr i ddilyn y Cod Cefn Gwlad. Roedd hefyd yn egluro'u hawliau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

Y Cod Cefn Gwlad: cyngor i reolwyr tir

## 2023

Comisiynwyd Aardman Animations i gynhyrchu animeiddiadau newydd i hyrwyddo'r Cod. Daeth Shaun the Sheep yn gefnogwr y Cod Cefn Gwlad.



## Data ac ystadegau ychwanegol

Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi Gweithgaredd 6 yn Y Cynllun gweithgaredd - Deall

### Poblogaeth y DU

| Blwyddyn | Poblogaeth |
|---|---|
| 1921 | 43,904,100 |
| 1941 | 44,870,400 |
| 1961 | 52,807,400 |
| 1981 | 56,357,500 |
| 2001 | 59,113,000 |
| 2021 | 67,081,000 |

Ffynhonnell OBR – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

### Enillion cyfartalog

| | |
|---|---|
| 1953 | Y cyflog cyfartalog oedd £10 yr wythnos, sef tua £5,200 y flwyddyn. |
| 2023 | Y cyflog cyfartalog oedd £635 yr wythnos, sef tua £33,000 y flwyddyn. |

Ffynhonnell – Forbes

## Gwyliau blynyddol

Dros amser, bu cynnydd yn nifer y gwyliau blynyddol â thâl y mae gan weithiwr hawl iddynt.

**1871** Crëwyd y Ddeddf Gwyliau Banc. Roedd y Ddeddf hon yn caniatáu i fanciau gau ar rai dyddiau a dechreuodd rhai busnesau ac ysgolion gau ar y dyddiau hyn hefyd.

**1938** Mabwysiadodd y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) y Confensiwn Gwyliau â Thâl, a oedd yn argymell gwyliau blynyddol gyda thâl o chwe diwrnod gwaith o leiaf ar ôl blwyddyn o wasanaeth parhaus. Serch hynny, nid tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd mewn gwirionedd yr oedd gan fwy o weithwyr hawl i wyliau blynyddol â thâl neu'n dechrau disgwyl hynny.

**1998** Cytunodd y Rheoliadau Oriau Gwaith ar yr hawl i bedair wythnos o wyliau â thâl bob blwyddyn wyliau.

**2024** Mae'r Rheoliadau Oriau Gwaith a ddiweddarwyd ar 1 Ionawr yn nodi bod gan bron bob gweithiwr hawl i 5.6 wythnos o wyliau â thâl y flwyddyn. Cyfeirir at hyn hefyd fel yr hawl i wyliau statudol neu wyliau blynyddol.


Nid oes rhaid rhoi gwyliau banc fel gwyliau â thâl; penderfyniad y cyflogwr yw hwn. Yn 2024, roedd gan Gymru a Lloegr wyth o wyliau cyhoeddus, ac roedd gan yr Alban naw a Gogledd Iwerddon ddeg.

Ffynhonnell – History Extra, BBC History Magazine a Gov.UK

## Ffactorau eraill sy'n helpu i esbonio pam mae defnydd pobl o gefn gwlad wedi newid dros amser

Mae maint cyfartalog y teulu wedi gostwng dros amser. Mae menywod yn cael llai o blant erbyn 30 oed o gymharu â chenedlaethau blaenorol.


Mae'n bosibl bod gan deuluoedd fwy o arian i'w wario ar bob plentyn unigol ac maen nhw'n gallu gwario mwy o arian ar weithgareddau hamdden.




Rhwng 1911 ac 1915,roedd 63% o bobl yn marw cyn cyrraedd 60 oed.

Yn yr 21ain Ganrif, dim ond 12% sy'n marw cyn cyrraedd 60 oed.

**Mae'r boblogaeth yn heneiddio – roedd nifer y sawl dros 50 oed yn 1901 yn 15% ac erbyn 1991 roedd hyn wedi codi i 31%.**




Ffynhonnell ONS - y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Adnoddau'r Cod Cefn Gwlad

**Gwefannau**

Teulu'r Cod Cefn Gwlad – gwefan CNC

Gwefan ymgyrch y Cod Cefn Gwlad

Hanes y Cod Cefn Gwlad – Llwybrau Cenedlaethol

**Taflenni a phosteri**

Taflen gryno

Poster cryno

Poster symbolau nodi llwybrau

**Fideos**

Rhestr chwarae YouTube

**Pecyn adnoddau**

Delweddau, fideos a gwybodaeth i bobl eu lawrlwytho a'u defnyddio yn eu negeseuon cyfathrebu:

Pecyn adnoddau'r Cod Cefn Gwlad (Cymru)

## Am ragor o wybodaeth

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am gynnwys sy'n gysylltiedig â'i gyfrifon ei hun. Serch hynny, dylid nodi nad yw CNC yn gyfrifol am gynnwys, safon na dibynadwyedd yr holl wefannau neu adnoddau y mae dolenni iddynt yn y nodyn gwybodaeth hwn.

Pan nad yw cynnwys yn perthyn i CNC, ni ddylid cymryd y ffaith ei fod wedi'i restru fel cymeradwyaeth o unrhyw fath. Ni allwn warantu y bydd y dolenni hyn yn gweithio bob amser ac nid oes gennym unrhyw reolaeth dros argaeledd tudalennau y mae dolenni iddynt.

### Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

### A ydych chi'n chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i: **cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Ar gyfer fformat amgen, print bras neu iaith arall, cysylltwch ag: **ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government